Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rheswm |
|---|---|---|---|
| 1. | Medi 2024 | RB | Drafft cychwynnol ar gyfer y Tîm Arwain a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| 2. | Hydref 2024 | RB | Sesiwn Datblygu Bwrdd Ddrafft wedi'i Diweddaru |
| 3 | Mawrth 2025 | RB | I'w gymeradwyo gan y Bwrdd |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Adolygu'r Ddogfen**

| Cymeradwywyd ar | Cymeradwywyd gan | Dyddiad adolygu |
|---|---|---|
| 26 Mawrth 2025 | Bwrdd Llais | Mawrth 2026 |
| | | |
| | | |
| | | |

# Cynnwys

Trosolwg a chwmpas y ddogfen ........ 3

Pwrpas ac amcanion sefydliadol Llais ........ 6

Ein Bwrdd a'i bwyllgorau ........ 6

Ffynonellau sicrwydd ........ 8

Gweledigaeth a chenhadaeth Llais ........ 10

Perfformiad yn erbyn ein Cynllun Blynyddol ac adrodd ar berfformiad a risg o beidio â chyflawni ........ 12

Y system OKR ac adrodd ........ 13

Sicrwydd ac adrodd am eithriadau ........ 14

# Trosolwg a chwmpas y ddogfen

Mae Fframwaith Sicrwydd Bwrdd Llais yn gweithredu fel mecanwaith allweddol i roi hyder i'r Bwrdd fod y sefydliad yn gweithio'n effeithiol tuag at ei nodau strategol, a'i fod yn glir ynghylch y risgiau o beidio â chyflawni'r nodau strategol hyn. Mae'n canolbwyntio ar gyflawni **strategaeth 3 blynedd Llais** a chynlluniau blynyddol ategol. Mae'r **cynlluniau blynyddol** yn manylu ynghylch nodau ac amcanion y sefydliad, yr adran a'r timau dros gyfnod o 12 mis. Mae'r cynlluniau hyn yn ceisio gwireddu gweledigaeth Strategaeth Llais. Bydd yn ofynnol i'r Bwrdd gytuno ar Gynlluniau Blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.

Mae'r fframwaith hwn hefyd yn ceisio darparu dull ac adrodd i'r Bwrdd, a thrwy hynny gall y Bwrdd:

- deall ei fod yn cadw at ei werthoedd, ei rwymedigaethau a'i ymrwymiadau cyfreithiol; a
- dangos llywodraethu cadarn a da trwy ei systemau, ymddygiadau a phrosesau h.y., ei fod yn gwneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir, am y rhesymau cywir.

Mae'r fframwaith hwn hefyd yn rhoi trosolwg o drefn lywodraethu a sicrwydd Llais, drwy amlinellu'r strwythurau, prosesau a ffynonellau gwybodaeth a sicrwydd y dylai'r Bwrdd ddisgwyl eu gweld a'u derbyn o'r tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad.

Drwy'r rhwydwaith hwn o drefniadau llywodraethu a sicrwydd ac adrodd, bydd y Bwrdd yn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch:

- digonolrwydd a phriodoldeb rheolaeth y sefydliad o ddydd i ddydd, yn unol â chyfarwyddyd y Prif Weithredwr (Swyddog Cyfrifyddu);
- y trefniadau dirprwyo sydd ar waith; ac
- a yw'r Bwrdd ar y trywydd iawn i gyflawni ei strategaeth a'i amcanion datganedig ai peidio.

Bydd hefyd yn cynorthwyo ac yn galluogi'r Bwrdd i roi sicrwydd i'w bartneriaid, Llywodraeth Cymru a phobl Cymru ynghylch ei gynnydd yn erbyn ei rolau, ei gyfrifoldebau a'i amcanion y cytunwyd arnynt.

Dylai helpu hefyd i ddangos bod y Bwrdd wedi ymrwymo i ragoriaeth ym mhopeth y mae'n ei wneud, ac y bydd yn atebol, yn agored ac yn dryloyw yn ei holl benderfyniadau a gweithgareddau ar ran, a chyda chyfranogiad gweithredol pobl Cymru.

Mae'r fframwaith yn amlinellu ac yn cwmpasu'r meysydd allweddol canlynol:

1. **Aliniad strategol:**

   - Sicrwydd bod yr holl weithgareddau a mentrau wedi'u halinio â'r blaenoriaethau strategol a amlinellwyd yn y strategaeth 3 blynedd a chynlluniau blynyddol cysylltiedig, a'r risg o beidio â'u cyflawni.
   - Y systemau ar gyfer monitro cynnydd yn rheolaidd yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol, risg a chanlyniadau disgwyliedig, a'r ffyrdd y caiff hyn ei adrodd yn agored.
   - Y mecanweithiau sydd ar waith i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw wyriadau oddi wrth y strategaeth 3 blynedd a'r cynlluniau blynyddol, a'u hamcanion a'u blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

2. **Gwerthoedd ac ymddygiadau:**

   - Sicrwydd bod diwylliant a gweithrediadau'r sefydliad yn ymgorffori'r gwerthoedd datganedig o gael ei yrru gan bobl, cydweithio, a gweithredu gydag uniondeb.
   - Mae mecanweithiau ar waith i asesu a hyrwyddo ymlyniad at y gwerthoedd hyn ar bob lefel o'r sefydliad, ac y gellir dangos hyn o fewn y sefydliad ac yn gyhoeddus.
   - Datblygwyd polisïau a phrosesau i hybu diwylliant ac ymddygiad, a bod trefniadau cadarn ar waith i reoli ac unioni unrhyw ymddygiad neu ddull sy'n gwrth-ddweud y gwerthoedd hyn.

3. **Cydymffurfiaeth a safonau cyfreithiol, rheoleiddiol:**

   - Sicrwydd bod Llais yn cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol, fel yr amlinellir mewn deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol, ac yn cwrdd â safonau a osodwyd yn genedlaethol ac yn sefydliadol.
   - Sut y cynhelir adolygiadau rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol esblygol, a safonau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol / sefydliadol.
   - Y prosesau sydd ar waith i nodi a lliniaru unrhyw risgiau cyfreithiol a chydymffurfiaeth, a lle nad yw safonau y cytunwyd arnynt yn cael eu bodloni.

4. **Cynaliadwyedd a llywodraethu ariannol:**

- Sicrwydd bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol, yn effeithlon ac yn effeithiol.
- Bod rheolaethau ariannol a mecanweithiau adrodd cadarn ar waith ac yn gweithredu'n effeithiol.
- Y cedwir at arferion llywodraethu da a thryloywder wrth wneud penderfyniadau a gweithrediadau.
- Bydd y sefydliad, ei archwilwyr mewnol ac archwilwyr allanol yn cynnal adolygiadau rheolaidd o brosesau a systemau mewnol, i sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, a bod y sefydliad yn gweithredu mewn modd amserol ar argymhellion yr adolygiadau hyn.

5. **Ymgysylltu â rhanddeiliaid a'i effaith:**

- Sicrwydd bod Llais yn ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Bod mecanweithiau wedi'u datblygu i fesur ac arddangos effaith gwaith Llais ar wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a chynrychioli llais pobl Cymru yn y gwasanaethau hyn.
- Mae prosesau ar waith i gasglu ac ymateb i atborth gan randdeiliaid, ac adrodd ar hynny fel y bo'n briodol.

6. **Rheoli risg:**

- Sicrwydd bod fframwaith rheoli risg cynhwysfawr ar waith i nodi, asesu, a lliniaru risgiau a allai effeithio ar gyflawni nodau strategol, gofynion sefydliadol a chyflawni, a bod hwn wedi'i ddatblygu a'i fod yn gweithredu'n briodol.
- Bod adolygiadau rheolaidd o gofrestrau risgiau a chynlluniau lliniaru risg yn cael eu cynnal, a bod adroddiadau priodol yn digwydd o fewn y sefydliad ac i'r Bwrdd a'i bwyllgorau.

7. **Datblygiad sefydliadol:**

- Sicrwydd bod Llais yn gwella'n barhaus fel sefydliad a bod modd dangos hyn yn glir.
- Bod buddsoddiadau, lle bo'n bosib, yn cael eu gwneud yn natblygiad y Bwrdd, y staff a'r gwirfoddolwyr, er mwyn cyflawni ymrwymiadau, nodau ac amcanion Llais yn well.

Trwy ymgorffori'r elfennau hyn, mae Fframwaith Sicrwydd Bwrdd Llais yn galluogi'r Bwrdd i fod yn ymwybodol a goruchwylio gweithrediad y sefydliad yn effeithiol, sicrhau atebolrwydd, a chynnal hyder bod Llais yn cyflawni ei genhadaeth i gryfhau llais pobl Cymru ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

# Pwrpas ac amcanion sefydliadol Llais

Llais yw'r Corff Llais y Dinesydd annibynnol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru i sicrhau bod gan bobl Cymru lais cryf yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Daeth y sefydliad yn gwbl weithredol ar 1 Ebrill 2023, ac fe wnaeth ddisodli'r Bwrdd a Chynghorau Iechyd Cymuned blaenorol yng Nghymru, o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Prif genhadaeth Llais yw casglu barn a phrofiadau pobl a chymunedau sy'n byw yng Nghymru, a chynrychioli'r safbwyntiau hyn, er mwyn helpu i lunio a gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r sefydliad yn gweithio'n agos gyda'r GIG a gwasanaethau cymdeithasol / darparwyr gofal lleol, i sicrhau bod pryderon ac anghenion y cymunedau'n cael eu hymdrin yn effeithiol.

Mae Llais hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys pobl a chymunedau o'r cychwyn cyntaf wrth gynllunio, datblygu a dylunio gwasanaeth.

# Ein Bwrdd a'i bwyllgorau

Mae ein Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a 6 aelod anweithredol, ac aelod anweithredol cyswllt heb hawliau pleidleisio yn cynrychioli staff Llais.  Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn aelod llawn o'r Bwrdd ac yn Swyddog Cyfrifyddu dynodedig ar gyfer Llais.  Mae'r Bwrdd yn gosod ein strategaeth, ac yn darparu craffu, goruchwylio a llywodraethu ar draws holl waith Llais.

Mae'r Bwrdd yn dwyn y Tîm Gweithredol i gyfrif wrth gyflawni ein nodau, amcanion a blaenoriaethau i fodloni'r gofynion a nodir yn Neddf Iechyd a

Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 a'n dyletswyddau sector cyhoeddus ehangach.


Darperir y rhain drwy weithgareddau gweithredol Llais, a gyflawnir drwy ein swyddogaethau corfforaethol a 7 tîm rhanbarthol sy'n cwmpasu Cymru gyfan.

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu 2 bwyllgor.  Y rhain yw'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Gweithlu, Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth.  Mae'r pwyllgorau hyn yn darparu craffu manwl, mewnwelediad, gwybodaeth, a chyngor i'r Bwrdd.

Mae'r pwyllgorau'n cynnwys aelodau anweithredol o'r Bwrdd.  Caiff y pwyllgorau eu cefnogi a'u cynghori gan swyddogion a chynghorwyr mewnol ac allanol eraill.  Mae'r Bwrdd hefyd wedi penodi 2 aelod annibynnol ychwanegol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, i roi mewnbwn pellach o safbwynt cyllid, materion seiber a TG yn arbennig.

Amlinellir ein strwythur llywodraethu isod:

Llais Governance Structure





Mae'r Bwrdd yn glir ei fod eisiau bod yn sefydliad lle mae cynwysoldeb, uniondeb, tosturi a pharch at ei gilydd yn llywio popeth a wneir gan y sefydliad.

Rydym yn canolbwyntio ar feithrin perthynas ag ystod eang o bobl, grwpiau a mudiadau sy'n cynrychioli'r gymuned, fel y gallwn gydweithio i ddefnyddio ein hadnoddau ar y cyd i wneud gwahaniaeth.

Mae'n hanfodol bwysig i ni ein bod yn cynnal ein hannibyniaeth, er mwyn adlewyrchu barn a chynrychioli buddiannau pobl a chymunedau yn y modd mwyaf effeithiol.

Caiff gwaith Llais ei gyflawni gan dîm gweithredol, uwch dîm arwain (Tîm Arwain) a staff y sefydliad, trwy ein strwythur rheoli.  Ceir trosolwg o'r strwythur rheoli isod:




# Ffynonellau sicrwydd

Mae'r Bwrdd yn defnyddio'r model risg a sicrwydd amddiffyn tair llinell i fframio ei ddulliau a'i fframwaith llywodraethu a sicrwydd.

Mae fframwaith llywodraethu risg y **3 Llinell Amddiffyn** yn rhannu cyfrifoldeb am risg a sicrwydd yn: y rhai sy'n berchen ar risgiau ac yn eu rheoli (rheolaeth; y 'llinell gyntaf') – y rhai sy'n llywio rheoli risg (risg, cydymffurfiaeth, rheolaethau ariannol, TG a chydymffurfiaeth ddigidol; yr 'ail linell') – y swyddogaethau hynny sy'n rhoi sicrwydd 'annibynnol' dros risgiau (archwilio mewnol; y 'trydedd linell').

Yn dechnegol, mae pedwaredd linell o'r rheini sy'n darparu sicrwydd annibynnol allanol, sy'n cynnwys archwilio allanol, arolygwyr a

rheoleiddwyr a'r tîm partneriaeth yn Llywodraeth Cymru (ond ymgymerir â'r rhain o fewn y drydedd linell).

Mae'r Bwrdd a'r tîm gweithredol yn eistedd ar draws y **3 llinell** hyn, gan ddiffinio'r agenda risg gorfforaethol a gosod y strategaeth rheoli risg a'r gofynion a'r trefniadau llywodraethu.


Mae'r dull sefydliadol hwn yn defnyddio adroddiadau a gwybodaeth ar draws, ac o fewn y fframwaith hwn. Mae Bwrdd Llais yn ceisio derbyn a rhoi sicrwydd ynghylch cynnydd a chydymffurfiaeth, ac a yw'r sefydliad ar y trywydd iawn i gwrdd â'i amcanion cytunedig a chyflawni ei gylch gwaith drwy rannu gwybodaeth yn fewnol ac yn allanol.

Mae cydnabyddiaeth glir hefyd o'r gwahaniad rhwng rolau a chyfrifoldebau llywodraethu a rheoli. Mae'r ddealltwriaeth hon yn galluogi deialog weithredol a pharhaus am berfformiad presennol Llais a'i gyfeiriad yn y dyfodol.

I gefnogi'r gwaith hwn ymhellach, bydd y Bwrdd, ei bwyllgorau a'i reolwyr yn cynnal asesiad o effeithiolrwydd y sefydliad a'i gydrannau allweddol o leiaf unwaith y flwyddyn. Defnyddir y rhain i arwain cynllunio gwelliant, ac maent hefyd yn nodweddion o adroddiad blynyddol a chyfrifon diwedd blwyddyn, a datganiad llywodraethu Llais.

Bydd y Bwrdd, trwy ei gyfarfodydd yn gyhoeddus a'i adroddiadau, adroddiadau effaith rheolaidd, a'i adroddiad blynyddol yn rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru a phobl Cymru am y cynnydd yn erbyn ei Strategaeth a'i Gynlluniau Blynyddol, a gweithgareddau cyffredinol Llais i gyflawni ei gylch gwaith.

Bydd y fframwaith hwn yn galluogi'r sefydliad i nodi cyfleoedd a risgiau allweddol, sut mae cynyddu ei berfformiad i'r eithaf, a sut mae'n parhau i ddysgu a datblygu.





# Gweledigaeth a chenhadaeth Llais

**Ein gweledigaeth**: Mae Llais yn credu mewn Cymru iachach. System iechyd a gofal cymdeithasol lle mae pobl yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, mewn ffyrdd sy’n gweithio orau iddynt, ac sy’n barod ar gyfer beth bynnag a ddaw yn y dyfodol.

**Ein cenhadaeth:** Mae Llais yn ei gwneud yn genhadaeth i wrando’n ofalus, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ac i gynyddu effaith lleisiau pobl wrth lunio gwasanaethau.

Rydym yn ceisio cydweithio â phobl Cymru i roi llais cryfach iddynt, a chynrychioli eu buddiannau, o ran iechyd a gofal cymdeithasol.

We do this by:




Dyma ein gweithgareddau craidd, ac rydym yn seilio ein dangosyddion perfformiad allweddol ar y 4 maes hwn, yn ogystal â sut yr ydym yn gwneud o ran cyflawni ein hamcanion strategol a'n blaenoriaethau datganedig.

Mae'r weledigaeth, y genhadaeth a'r gweithgareddau allweddol wedi'u mynegi mewn strategaeth 3 blynedd ar gyfer Llais – o'r enw **Sgwrs Genedlaethol: Cynllun Strategol Llais 2024-2027**

Dyma gynllun strategol cenedlaethol cyntaf Llais. Mae wedi'i greu gan ddefnyddio'r hyn a ddywedwyd wrthym gan bobl Cymru, gan ein staff a'n gwirfoddolwyr, a'r cyrff a'r grwpiau yr ydym yn gweithio gyda nhw.

Mae'r Strategaeth hefyd yn adlewyrchu ein cyfrifoldebau allweddol wrth ymateb i Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu 2020, Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Safonau'r Gymraeg 2016, Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a chynlluniau ac ymrwymiadau cenedlaethol, megis y Cynllun Gweithredu LGBTQ+ a'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, yn ogystal â'n Llythyr Cylch Gwaith gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Strategaeth yn anelu at fod yn fwy na chanllaw am 3 blynedd – mae Llais wedi addo i bobl Cymru y byddwn yn herio'r rhai sydd â gofal am y system iechyd a gofal cymdeithasol, i fuddsoddi mewn newid ac i greu system iechyd a gofal cymdeithasol gryf, teg, ac arloesol.

Felly, mae'n hanfodol bod Llais yn driw i'w air, a bod y Bwrdd yn cael ei alluogi i ddangos ei fod yn amlwg ar y trywydd cywir i gyflawni ei ymrwymiadau, bod yn onest ac yn agored ynghylch y mannau lle nad yw'n cyflawni ei uchelgeisiau a'i flaenoriaethau ar hyn o bryd, ac egluro beth mae'n ei wneud i wireddu ei Strategaeth. Mae'r fframwaith hwn yn ceisio helpu'r Bwrdd i wybod ei fod ar y trywydd cywir, derbyn gwybodaeth am ei lwyddiannau a'u dathlu. Hefyd, mae angen i'r Bwrdd fod yn glir ble a pham mae amcanion a blaenoriaethau ar ei hôl hi, a beth sy'n cael ei wneud i unioni'r sefyllfa.

Wrth geisio sicrhau'r Bwrdd drwy'r fframwaith hwn, bydd Llais fel sefydliad hefyd yn gallu egluro'n glir i'n partneriaid a phobl Cymru'r hyn sy'n cael ei gyflawni, a'r hyn y bwriedir ei wneud i gwrdd â'n cyfrifoldebau, nodau ac amcanion.

Bob blwyddyn, bydd y Strategaeth yn cael ei rhoi ar waith drwy **Gynllun Blynyddol**. Mae ein cynllun blynyddol yn nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud yn y flwyddyn ariannol berthnasol i helpu Llais i gyflawni'r blaenoriaethau rydym wedi'u nodi yn ein Cynllun Strategol 3 blynedd ar gyfer 2024-2027, 'Sgwrs Genedlaethol'. Ein cynllun blynyddol yw ein canllaw ar gyfer y flwyddyn, a'r mecanwaith a ddefnyddir gennym i ysgogi a dangos cynnydd tuag at gyflawni ein nodau a'n hamcanion.

# Perfformiad yn erbyn ein Cynllun Blynyddol ac adrodd ar berfformiad a risg o beidio â chyflawni

Bydd perfformiad yn erbyn amcanion yn ein cynlluniau blynyddol a'u cyflawniad yn cael ei oruchwylio gan y Bwrdd. Cyfrifoldeb y Tîm Gweithredol a'r Tîm Arwain fydd rhoi'r cynllun ar waith. Bydd craffu manwl yn cael ei wneud gan bwyllgorau'r Bwrdd.

Bydd y Tîm Gweithredol a'r Tîm Arwain yn:

- Cynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni'r amcanion hyn trwy ddarparu gwybodaeth berthnasol, trwy adrodd ar berfformiad a dangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt. Bydd hyn yn cynnwys perfformiad yn erbyn cynlluniau, datganiadau ariannol a chynlluniau ariannol, cynlluniau buddsoddi, cyflawniadau a llwyddiannau, ac unrhyw risgiau parhaus.

- Rhoi eglurder ar y systemau a'r prosesau a ddefnyddir i ddarparu adroddiadau o'r fath, megis systemau cyfrifyddu a'r fframwaith rheoli risg. Yn ei uchelgais i fod yn arloesol a datblygu systemau integredig, mae Llais wedi mabwysiadu'r **system OKR (Amcanion a Chanlyniadau Allweddol)** i hwyluso rheolaeth perfformiad integredig, a bydd y system hon hefyd yn darparu llwyfan ar gyfer adroddiadau sefydliadol a chyhoeddus.
- Rhoi gwybod i'r Bwrdd am newidiadau arfaethedig sydd eu hangen i gefnogi cyflawni amcanion, ac unrhyw addasiadau sydd eu hangen yn yr amgylchedd ariannol ac anariannol cyffredinol y mae Llais yn gweithio ynddo ac yn ceisio'i gyflawni.

Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir gan y Tîm Gweithredol ar gyfer y Bwrdd a'i bwyllgorau yn cael ei gwirio i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Bydd hyn yn cael ei fonitro gan y Prif Weithredwr a'r Swyddog Diogelu Data dynodedig, sef y Cyfarwyddwr Strategol dros Weithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol.

# Y system OKR ac adrodd

Bydd Llais yn defnyddio ein **system / platfform OKR** (gan ganolbwyntio ar amcanion a chanlyniadau allweddol) i reoli adrodd yn erbyn cyflawniad ein hamcanion, ein trefniadau rheoli perfformiad a rheoli risg. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy gyfres o adroddiadau a dangosfyrddau integredig.

Fodd bynnag, yn weithredol, bydd y rhwydwaith presennol o gofrestrau risgiau traddodiadol hefyd yn cael ei ddatblygu ymhellach, ei gynnal a'i ddefnyddio i gynorthwyo gyda chynllunio, adrodd ar gydymffurfiaeth, ac i helpu i reoli'r agenda a nodi meysydd gwaith blaenoriaeth. Bydd y **Strategaeth Rheoli Risg** bresennol yn cael ei defnyddio i arwain y gwaith hwn ac i adrodd i'r Bwrdd a'i bwyllgorau.

Bydd y system OKR yn darparu adroddiadau integredig, adroddiadau rheoli perfformiad, cofrestrau risgiau ac adroddiadau rheoli risg, gan gynnwys dangosfyrddau integredig. Mae'r system OKR yn cynnig gwell ffordd o adrodd trwy'r dangosfyrddau hyn ac adroddiadau integredig. Mae'r system hon yn cael ei bwydo o fewnbwn staff a gwirfoddolwyr ar draws y sefydliad, o adroddiadau gan bartneriaid ac archwilwyr ac

arolygwyr, a bydd yn cael ei bwydo gan ddwy system TG arall, sef system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) a SharePoint – sydd wedi'u dylunio i wella ein trefniadau cadw cofnodion a mannau ar-lein i'n helpu i weithio'n well, a chael mwy o effaith fel rhan o'n Strategaeth Ddigidol, Data a TG.

Bydd y system OKR yn cael ei defnyddio'n weithredol i hwyluso fframio ac adrodd ar gyfer **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd,** gan y bydd yn cael ei defnyddio yn y lle cyntaf i baratoi adroddiadau risg a pherfformiad, a dangosfwrdd integredig yn erbyn amcanion allweddol Llais.

Bob blwyddyn, bydd y Bwrdd yn cytuno ar ei amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod, bydd adolygiad canol blwyddyn cynhwysfawr (Bwrdd mis Medi) yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd drwy'r system OKR ac ar ddiwedd y flwyddyn (Bwrdd mis Mawrth), a fydd yn llywio barn y Bwrdd am flaenoriaethau ac amcanion y flwyddyn i ddod (cyfarfod cyntaf y Bwrdd yn gyhoeddus mewn blwyddyn ariannol newydd).

Bydd y Bwrdd hefyd yn cyfranogi mewn trafodaeth adolygu ganol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn, i werthuso cynnydd a chytuno ar unrhyw newidiadau gofynnol (canol y flwyddyn), bydd hyn hefyd yn dechrau ar y rhag-gynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bydd trafodaethau adolygu diwedd y flwyddyn yn myfyrio ar gynnydd a datblygiad y cynllun blynyddol ar gyfer y flwyddyn i ddod, yn barod ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol.

## Sicrwydd ac adrodd am eithriadau

Ceir sicrwydd ynghylch digonolrwydd a gweithrediad llwyddiannus y trefniadau a'r dulliau hyn o ystod eang o ffynonellau, ond trwy'r OKR yn bennaf.

Rhaid i adrodd a sicrwydd fod yn systematig, wedi'u hategu gan dystiolaeth, a lle bo'n bosib wedi'u gwirio'n annibynnol. Mae'n chwarae rhan bwysig mewn trefniadau a phrosesau llywodraethu cadarn o fewn Llais, ar draws ein partneriaethau. Bydd yn amlwg yn y sicrwydd a roddwn i eraill ynghylch cadernid ein trefniadau a'n perfformiad.

Felly, bydd Bwrdd Llais yn ystyried adroddiad llawn yn erbyn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ddwywaith y flwyddyn. Bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiadau diweddaru ym mhob un o'i gyfarfodydd Bwrdd yn gyhoeddus ar weithrediad Cynllun Blynyddol Llais a'i berfformiad cyffredinol.

Yn gysylltiedig â hyn, bydd adroddiad diweddaru ar y prif risgiau a nodwyd ar gyfer Fframwaith Risg cyffredinol y Bwrdd trwy ddangosfwrdd risg. Bydd hyn ar ffurf adroddiad i'r Bwrdd yn erbyn y 10 risg mwyaf a nodwyd o'r gofrestr risgiau corfforaethol.

Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd i wneud dyfarniad ar gynnydd y Cynllun Blynyddol, perfformiad cyffredinol, gweithrediad y sefydliad a'r risg o beidio â chyflawni ei amcanion. Bydd adroddiadau'n cael eu gwneud fel eithriad, ond lle nad yw cynnydd yn cael ei wneud yn ôl y disgwyl, bydd cynlluniau gweithredu clir yn cael eu hamlinellu, i nodi beth fydd yn digwydd i gymryd camau adferol i gyflawni'r amcanion a gynlluniwyd o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt.

Bydd Fframwaith Sicrwydd llawn y Bwrdd yn cael ei adnewyddu bob blwyddyn, yn unol â chytundeb cynllun blynyddol newydd, a'i gymeradwyo mewn cyfarfod o'r Bwrdd.

Bydd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cael ei brofi a'i graffu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, gan ei drafod ddwywaith y flwyddyn cyn i'r Bwrdd ei ystyried.

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn derbyn y gofrestr risgiau corfforaethol lawn ddwywaith y flwyddyn, ac yn ei 2 gyfarfod arall yn derbyn adroddiad ar y 10 risg mwyaf o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r dangosfwrdd risg integredig. Bydd y Pwyllgor Gweithlu, Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth yn parhau i ymgysylltu â basged o risgiau sy'n ymwneud â'i feysydd cyfrifoldeb penodol a'u monitro, a bydd yn derbyn dangosfwrdd gweithlu integredig.

Bydd y Tîm Gweithredol yn goruchwylio'r system risg a sicrwydd o ddydd i ddydd ar ran y Bwrdd. Bydd y Tîm Arwain yn parhau i weithredu fel y grŵp gweithredol ar gyfer rheoli risg, gan baratoi adroddiadau i'w cyflwyno i'r Bwrdd a phwyllgorau, fel yr amlinellwyd uchod, trwy'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, y rhwydwaith o gofrestrau risgiau ar draws y sefydliad, a'r system perfformiad OKR integredig.

Bydd y Tîm Gweithredol hefyd yn cynnal adolygiad misol o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac yn gwahodd cynrychiolwyr o ranbarthau a swyddogaethau i gyfarfodydd, i gynorthwyo gyda chraffu ychwanegol a chytuno ar gamau gweithredu pellach a chymorth corfforaethol.

Bydd y Tîm Gweithredol yn cynnal cyfarfod chwarterol wedi'i neilltuo i flaenoriaethau ac amcanion y Cynllun Blynyddol. Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo gyda'r trefniadau adrodd, fel yr amlinellwyd uchod.

Yn flynyddol, yr allbynnau a'r canlyniadau a adroddir trwy'r system lywodraethu a sicrwydd hon fydd sylfeini a nodweddion allweddol **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llais.**

Mae gan Llais, fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rwymedigaeth statudol i gyhoeddi adroddiad blynyddol a chyfrifon archwiliedig.  Mae'r cyfrifoldeb hwn yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd yn ein gweithrediadau.  Paratoir yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon Llywodraeth Cymru a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FreM)

Yn nodweddiadol, mae'r adroddiad yn cynnwys:

- **Trosolwg o Berfformiad**: Yn crynhoi gweithgareddau a chyflawniadau allweddol.
- **Adroddiad Atebolrwydd**: Yn cynnwys llywodraethu, adroddiad y cyfarwyddwyr, ac adroddiad cydnabyddiaeth ariannol.
- **Datganiadau Ariannol**: Yn cynnwys gwariant net cynhwysfawr, sefyllfa ariannol, llif arian, a newidiadau yn ecwiti trethdalwyr.

Mae bodloni'r gofynion hyn yn hanfodol ar gyfer cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd, a dangos defnydd effeithiol o arian cyhoeddus, ac mae'n nodwedd flynyddol allweddol o fframwaith sicrwydd ac adrodd y Bwrdd.

Yn allweddol i lwyddiant y fframwaith cyffredinol hwn bydd ymgysylltiad gweithredol y Bwrdd a'i bwyllgorau, a goruchwyliaeth y Tîm Gweithredol a'r Tîm Arwain i sicrhau bod y Bwrdd yn gallu ateb ystod o gwestiynau sicrwydd allweddol yn gadarnhaol ynghylch effeithiolrwydd Llais a'i gynllunio a'i gyflawni.  Amlinellir enghreifftiau isod.

- A ydym yn darparu gwasanaethau cynhwysol o ansawdd uchel?
- A ydym yn bodloni'r safonau gofynnol?
- A ydym yn cyfrannu at wella profiadau cleifion a defnyddwyr gwasanaethau?
- A ydym yn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol gyda'r adnoddau sydd ar gael?
- A ydym yn ymgysylltu ac yn gwrando ar ein gweithlu?
- A ydym yn darparu gwasanaethau teg a hygyrch?
- A ydym yn gwella / helpu i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru?

Fel y nodwyd, bydd y Fframwaith Sicrwydd Bwrdd hwn yn cael ei adolygu'n ffurfiol a'i adnewyddu'n flynyddol, gyda'r bwriad o'i gymeradwyo yng nghyfarfod cyntaf y Bwrdd yn gyhoeddus ym mhob blwyddyn ariannol newydd.